**CYNGOR CYMUNED**
**LLANFAIR YN NEUBWLL**
**COMMUNITY COUNCIL**

## Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - Nos Fawrth, 19eg o Ionawr 2016

| | |
|---|---|
| **Presennol:** | Cyng. Gwilym O. Jones (Cadeirydd)<br>Cyng. Gordon Owen<br>Cyng. Gwynfor Lloyd Jones<br>Cyng. Beryl Salisbury<br>Cyng. Dyfed Williams |
| **Ymddiheuriadau:** | Cyng. Einir Thomas |

**2. Datganiad o ddiddordeb –** dim

**3. Cofnodion cyfarfod - 17eg o Dachwedd 2015 -** Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir (Cynnig Cyng. Gordon Owen, eilio Cyng. Dyfed Williams.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

1. Ffens cae chwarae - Roedd Mr Redmond wedi plannu rhai llwyni a byddai'n dechrau ar y gwaith ar y ffens yn gynnar ym mis Chwefror.

2. Llochesi bws - Cytunwyd y byddai'r clerc yn cysylltu â chwmni arall yn Gaerwen ynglŷn â trin y lloches wrth gyffordd yr A55.

   Cadarnhaodd CSYM fod y lloches bws ar Ffordd Minffordd ar dir preifat ac felly nid oedd ganddynt gyfrifoldeb amdani. Fe nodwyd hefyd nad oedd unrhyw arian ar gael petai'r Cyngor Cymuned yn dymuno cysylltu â'r tirfeddiannwr gyda'r bwriad o fabwysiadu'r lloches

3. Cae pêl droed Tre Ifan - Cytunwyd y dylai gweld be fyddai cost y ffens ac ati cyn gwneud ymholiadau ynglyn â chael prydles ar y tir.

4. Canllawiau Pensiwn - dogfen a gynhyrchwyd gan NALC yn hysbysu'r Cyngor ei bod yn ofynnol arnynt fel cyflogwr i ddarparu pensiwn ar gyfer y clerc o Ebrill 2017, oni bai y byddai yn dymuno llofnodi ffurflen eithrio. Ni fyddai cost i'r Cyngor am wneud hyn.

5. Newyddion Cynghorau Tref a Chymuned Hydref Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cynghorau tref a Chymuned yn cynnwys gwybodaeth am Ddefdd Llywodraeth Leol (Democratiaeth) , Is-ddeddfau Llywodraeth Leol , cynllunio , ymarfer da ac ati .

6. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - Dim

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref**

32C198/LUC/ENF - Llyn-Ogg, Llanfair yn Neubwll - Cais am dystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer lleoli carafan statig - cytunwed mae mater i swyddogion y Cyngor Sir oedd hwn.

 Arwyddwyd:…………………….(Cadeirydd)

Penderfyniadau Cynllunio

32C197 Tir, The Stables, Caergeiliog - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd yn cynnwys manylion llawn am fynedfa i gerbydau - gwrthodwyd

32C127A Bryn Awel, Caergeiliog - Cais llawn ar gyfer codi ports - Cytunwyd

32C194/LB - Tollgate, Caergeiliog - Cais am Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer addasu ac ehangu - Cytunwyd

6 **. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn -** fe nodwyd y canlynol

1. Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad mis Hydref
2. Ymgynghoriad ar Ffordd Newydd o Osod Tai Cymdeithasol ar Ynys Môn
3. Gwahoddiad i enwebu - Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2017

**7. Materion Ariannol**

**Yn y banc ar 19.1.2016 Cyfrif Cyfredol £8291.27, Cyfrif Cadw £3918.17**

**Taliadau i'w gwneud**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog y clerc (Tach/Rhag.) | £352.70 | HMRC (TWE) | £88.18 |
| Les Cae Chwarae | £274 | Cyfieithydd | £45.00 |
| | | | |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Gordon Owen)**

**8. Cyfrifon 2015/2016 -** Cadarnhaodd Cyng. Dyfed Williams fod cyfrifon 2015/2016 mewn trefn.

**9. Presept 2016 / 2017 -** Yn dilyn trafodaeth am y gwariant a ragwelir ar gyfer 2016/2017, cytunwyd yn unfrydol y byddai'r Cyngor Cymuned yn gofyn am £10,100 ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**10. Gohebiaeth Eraill – fe nodwyd y canlynol**

1. Siarter Iaith Môn - Rhoddwyd ystyriaeth i lythyr a dderbyniwyd gan Ysgol Sefydledig Caergeiliog yn gofyn i'r Cyngor Cymuned enwi aelod o'r Cyngor a allai gefnogi eu cais am Siarter Iaith Gymraeg Môn. Cytunwyd y byddai'r clerc yn ymateb i ddweud gan na fu unrhyw gyswllt rhwng y Cyngor Cymuned a'r ysgol ers nifer o flynyddoedd, roedd y Cyngor yn anymwybodol o weithgareddau'r ysgol. Heb ymwybyddiaeth fanwl o berfformiad yr ysgol yn yr iaith Gymraeg, tystiolaeth o ymrwymiad rhieni, plant, llywodraethwyr a.y.b. ystyriwyd y byddai'n amhriodol i'r Cyngor fod yn rhan o'r broses o

wneud cais am y Siarter.

2. Cylchlythyr RHUN AP IORWERTH
3. Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru /
4. Adroddiad Betsi Cadwaladr
5. Neighbourhood Watch
6. Cysylltiadau Argyfwng - cytunwyd i'r clerc roi rhain
7. Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft
8. Adolygiad o Ddiogelwch Cefnffyrdd (Cymru)

**11 . Unrhyw fater arall**

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Squadron Leader Dave Williams ynglyn â'r wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith ailwampio ar Camp Fali .

Dywedodd Cyng. Dyfed Williams y dylid CSYM gael eu llongyfarch - er gwaethaf glaw enfawr ni fu unrhyw arwydd o lifogydd ar y ffyrdd o gwmpas Camp Fali.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â CSYM unwaith eto am lefel y dŵr tu ôl i Stad Tre Ifan

**12. Cyfarfod nesaf 16eg o Chwefror 2016.**



Arwyddwyd:…………………….(Cadeirydd)